



Cyngor Sir  
**CEREDIGION**  
County Council

# **Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig**

**Polisi Ariannol**

**Rhagfyr 2023**

Enw a Lleoliad y Ddogfen	Polisi Ariannol Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig
Awdur	Nerys Lewis <b>Rheolwr Corfforaethol Gwasanaethau Uniongyrchol</b>
Perchennog y Ddogfen	Audrey Somerton Edwards <b>Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cynnal a Chyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol</b>
Dyddiad Adolygu	Mae'r ddogfen hon i'w hadolygu o leiaf bob 3 blynedd ar ôl dyddiad ei chymeradwyo. Gellir cynnal adolygiadau cynyddol yn ôl yr angen.
Hygyrchedd	Gellir trefnu bod y ddogfen hon ar gael yn Gymraeg.

### Diweddariadau, Diwygiadau a Newidiadau

Fersiwn	Manylion y Newid	Dyddiad

## Cynnwys

1. Cyflwyniad .....	4
2. Cymorth Ariannol i Ddarpar Warcheidwaid Arbennig .....	5
3. Trosolwg o'r broses asesu ariannol .....	8
4. Dogfennau gofynnol .....	11
5. Defnyddio'r prawf modd .....	13
6. Lwfans Atodol .....	18
7. Cyfrifoldebau Gwarcheidwad/Gwarcheidwaid Arbennig .....	22
8. Adolygiad .....	23
9. Terfynu taliadau .....	25
10. Atodiadau .....	27

# 1. Rhagymadrodd

Dylid darllen y polisi hwn ar y cyd â Pholisi Gwarcheidiaeth Arbennig Cyngor Sir Ceredigion sy'n amlinellu fframwaith deddfwriaethol Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig. Mae'r polisi hwn yn ymwneud â chymorth ariannol ac adolygiadau o gymorth ariannol i Warcheidwaid Arbennig yn unig.

Mae cymorth i Warcheidwaid Arbennig, gan gynnwys darpariaeth ariannol wedi'i amlinellu yn Rheoliadau Gwarcheidiaeth Arbennig (Cymru) 2005, a ddiwygiwyd gan Reoliadau Gwarcheidiaeth Arbennig (Cymru) (Diwygio) 2018 a'r Cod Ymarfer Gwarcheidiaeth Arbennig ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig 2018.

Yn unol â'r Canllaw ar gyfer Cynnig Cymorth Gwarcheidiaeth Arbennig yng Nghymru 2020 (AFA), sy'n dwyn ynghyd ganllawiau statudol sy'n ymwneud â gofynion gwasanaethau cymorth fel y'u hamlinellir yn Neddf Plant 1989, Rheoliadau Gwarcheidiaeth Arbennig (Cymru) 2005 (fel y'i diwygiwyd yn 2018) a'r Cod Ymarfer Gwarcheidiaeth Arbennig ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig 2018. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod Lleol wneud trefniadau ar gyfer rhoi cymorth ariannol i Warcheidwaid Arbennig.

Er mwyn i warcheidwaid arbennig gael lwfans ariannol, rhaid iddynt fodloni'r gofynion ar gyfer asesu ac adolygu, yn unol â'r weithdrefn ariannol a amlinellir yn y ddogfen hon.

## 2. Cymorth Ariannol i Ddarpar Warcheidwaid Arbennig

2.1 Mae rheoliadau'r Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig yn datgan y dylid rhoi cymorth ariannol lle bo angen er mwyn sicrhau y gellir sicrhau'r trefniadau ar gyfer Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig. Ni ddylai cymorth ariannol fod yr unig reswm dros fethiant trefniant Gwarcheidiaeth Arbennig i oroesi. Mae hyn yn berthnasol i blant sy'n derbyn gofal a phlant nad ydynt yn derbyn gofal.

2.2 Gellir rhoi cymorth ariannol fel:

- Un cyfandaliad i ddiwallu angen penodol a aseswyd
- Cyfres o gyfandaliadau i ddiwallu angen penodol a aseswyd
- Taliad cyfnodol neu reolaidd sy'n daladwy ar adegau i'w pennu gan yr awdurdod lleol i ddiwallu angen parhaus penodol a aseswyd.

2.3 Yn unol â Chod Ymarfer y Gwarcheidiaeth Arbennig ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â gorchymynion Gwarcheidiaeth Arbennig (2018), gall yr awdurdod lleol ddechrau rhoi cymorth ariannol o dan yr amgylchiadau a ganlyn:

- (a) Mae plentyn sy'n destun gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig yn byw gyda'r gwarcheidwad arbennig ac mae'r awdurdod lleol yn ystyried bod cymorth ariannol yn angenrheidiol i sicrhau y gall y gwarcheidwad barhau i ofalu am y plentyn.
- (b) Mae plentyn y ceisir gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig mewn perthynas ag ef, neu y mae llys wedi gofyn am adroddiad mewn perthynas ag ef, yn byw gyda darpar warcheidwad arbennig ac mae'r awdurdod lleol o'r farn:
  - i. Byddai'n fuddiol i'r plentyn pe bai gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig yn cael ei wneud
  - ii. Bod cymorth ariannol yn angenrheidiol i sicrhau y gall y darpar warcheidwad arbennig barhau i ofalu am y plentyn wrth aros am benderfyniad y llys.

Mae'r ddarpariaeth hon yn caniatáu cymorth ariannol pan fo'r awdurdod lleol yn cefnogi gwneud gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig, ond yn ystyried bod

amheuaeth ynghylch llwyddiant hirdymor perthynas y plentyn â'r darpar warcheidwad arbennig heb roi cymorth o'r fath tra bod y cais yn dal i gael ei ystyried.

- 2.4 Ym mhob achos, dim ond ar ôl cynnal asesiad ariannol Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig i bennu'r swm i'w dalu ac i sicrhau bod yr ymgeisydd yn gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ynghylch Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig y gellir rhoi cymorth ariannol.
- 2.5 Yn unol â Rheoliadau Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig rhaid i gymorth ariannol i Warcheidwaid Arbennig ategu ac nid dyblygu cymorth ariannol sydd ar gael drwy'r systemau budd-daliadau a chredydau treth. Mae'n ofynnol felly i bob Gwarcheidwad Arbennig wneud cais am fudd-dal plant a chredyd treth plant y mae ganddynt hawl iddynt. Bydd y swm hwn yn cael ei dynnu o'r taliad lwfans Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig cyffredinol sydd i'w wneud.
- 2.6 Rhaid i gymorth ariannol beidio â chynnwys unrhyw elfen o dâl am ofal y plentyn, fodd bynnag, mae Rheoliad 7(4) (Rheoliadau Gwarcheidiaeth Arbennig (Cymru) (Diwygio) 2018) yn caniatáu i Awdurdodau Lleol roi cymorth ariannol uwchlaw'r lefel arferol i gyn ofalwr maeth. Nid yw hwn yn hawl awtomatig.



### **3. Trosolwg o'r broses asesu ariannol**

#### 3.1 Cynhelir asesiadau ariannol naill ai:

- Yn dilyn penderfyniad y bydd asesiad llawn ar gyfer Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig yn mynd rhagddo,
- Fel rhan o Asesiad Personau Cysylltiedig neu
- Lle bo darpar ymgeisydd cymwys yn gofyn am asesiad dros dro i fod yn sail i'w benderfyniad.

3.2 Er mwyn cwblhau'r asesiad ariannol, bydd gofalwr y Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig yn cael ffurflen gais ariannol i'w dychwelyd i Gyngor Sir Ceredigion a fydd yn cael ei chofnodi ar y system rheoli data. Bydd Tîm Cyllid Cyngor Sir Ceredigion yn gwirio'r wybodaeth a'r dogfennau ariannol angenrheidiol ar gyfer yr asesiad. Os bydd unrhyw faterion yn ymwneud â'r broses uchod yn codi, byddant yn cael eu rhannu gyda'r Gweithiwr Cymdeithasol sy'n Asesu.

3.3 Cyfrifoldeb y gweithiwr cymdeithasol gofal plant fydd sicrhau bod y Gwasanaethau Cyfreithiol a'r ymgeiswyr yn cael eu diweddarau pan fo unrhyw oedi yn y broses hon a bod yr achos o fewn achosion.

3.4 Bydd copïau o'r dogfennau a wiriwyd yn cael eu trosglwyddo i Dîm Cyllid Cyngor Sir Ceredigion ac yn cael eu cadw ganddo, a fydd yn datblygu mecanwaith ar gyfer sicrhau bod yr holl wybodaeth sydd ei hangen yn cael ei chasglu, ei gweld a'i storio yn unol â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol 2016.

3.5 Bydd prawf modd yn cael ei ddefnyddio (fel y manylir yn adran 5) i asesu a oes unrhyw lwfans Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig yn daladwy. Yna



bydd y cyfrifiad yn cael ei anfon trwy e-bost at y Gweithiwr Cymdeithasol sy'n Asesu i'w rannu a'i drafod gyda'r ymgeisydd/ymgeiswyr. Bydd yr e-bost yn cadarnhau a yw'r holl ddogfennau gofynnol wedi'u cael yn unol â'r polisi hwn. Mae'r asesiad yn parhau i fod yn dros dro nes eu bod.

- 3.6 Lle penderfynir bwrw ymlaen, bydd y swm sy'n daladwy, hyd ac amserlen ar gyfer adolygu yn cael eu cynnwys yng nghynllun cymorth y Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig a'u cofnodi ar y system rheoli data.
- 3.7 Dylai'r Gweithiwr Cymdeithasol sy'n Asesu ofyn i warcheidwaid arbennig roi manylion eu cyfrif banc (banc, cangen, cod didoli, rhif cyfrif ac enw deiliad/deiliaid y cyfrif) er mwyn i daliadau gael eu sefydlu cyn gynted â phosibl.
- 3.8 Mae'r Gweithiwr Cymdeithasol sy'n Asesu yn gyfrifol am sicrhau bod y Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig neu'r Asesiad Personau Cysylltiedig, y cynllun cymorth a'r asesiad ariannol yn cael eu cofnodi ar y system rheoli data i gyfeirio atynt yn y dyfodol pe bai unrhyw ymholiadau'n codi mewn perthynas â'r asesiad a'r cytundeb gwreiddiol.
- 3.9 Yn dilyn caniatáu'r Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig, bydd aelod o'r Tîm Maethu yn gyfrifol am sicrhau bod llythyr yn cael ei anfon at y Gwarcheidwad/Gwarcheidwaid Arbennig yn cadarnhau:
- Canlyniad yr asesiad ariannol
  - Swm, dyddiad cychwyn ac amllder taliadau
  - Y gofyniad i wneud cais am Fudd-dal Plant a Chredyd Treth Plant
  - Unrhyw amodau ychwanegol mewn perthynas â'r lwfans a chanlyniadau peidio â'u bodloni

- 3.10 Os bydd y darpar warcheidwad arbennig yn gwrthod cydweithredu â'r broses asesu ariannol, ni fydd lwfans yn daladwy.
- 3.11 Os canfyddir, yn y broses o gwblhau'r asesiad, nad yw'r darpar warcheidwad/gwarcheidwaid arbennig yn hawlio eu hawliau budd-dal lles yn unol â chanllawiau'r llywodraeth ganolog a bod pryderon ynghylch hawliadau twyllodrus, bydd y mater yn cael ei gyfeirio'n ôl at y Gweithiwr Cymdeithasol sy'n Asesu neu'r Tîm Maethu (yn achos adolygiad ariannol) i fynd i'r afael ag ef.
- 3.12 Bydd yr awdurdod lleol yn rhoi cymorth i ddarpar warcheidwaid gael 2 awr o gyngor cyfreithiol ar ôl cwblhau asesiad a chynllun cymorth i hwyluso'r ymgeisydd/ymgeiswyr i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth a chyflwyno cais i'r llys.

## 4. Dogfennau gofynnol

4.1 Os yw un neu'r ddau o'r ymgeiswyr gwarcheidwaid arbennig:

- Yn gyflogedig, mae angen slipiau cyflog am 3 mis neu 12 wythnos fel rhan o'r broses wirio.
- Ar gyfer ymgeiswyr hunangyflogedig, mae angen copi o'u ffurflen dreth a/neu gyfrifon busnes.
- I'r rheini nad ydynt yn gweithio, mae angen gwirio'r holl incwm budd-daliadau (naill ai drwy lythyr dyfarnu'r adran gwaith a phensiynau neu mewn rhai amgylchiadau eithriadol, copi o gyfriflen banc).
- I'r rheini sy'n cael credyd treth plant/gwaith a chredyd pensiwn, mae angen copïau o'r hysbysiadau dyfarnu ac mae ein llythyr a anfonwn gyda'r ffurflen ariannol yn gofyn yn benodol am gynnwys 'pob tudalen' o'r llythyrau.
- Mae angen cyfriflenni banc hefyd ar gyfer pob cyfrif am y 3 mis diwethaf.

4.2 Mae angen gwirio unrhyw incwm arall. Os nodir incwm heb ei ddatgan ar gyfriflen banc, bydd yr Adran Gyllid yn holi'r ymgeisydd am hyn.

4.3 Gellir lwfio o fewn yr asesiad ariannol ar gyfer costau megis morgais, rhent, treth y cyngor, ac ati. Gofynnir am wirio'r costau hyn ac mae angen gwneud hynny.

- 4.4 Lle nodir hawl i fudd-daliadau oedolion ond nad yw'r ymgeisydd/ymgeiswyr yn ei defnyddio, byddai'r ymgeisydd/ymgeiswyr yn cael gwybod y gellid hawlio budd-dal ychwanegol ac yn cael cyfle i gyflwyno hawliad. Byddai Cyllid wedyn yn mynd ar drywydd yr hawliad hwn maes o law. Os na chyflwynir yr hawliad, bydd yr Adran Gyllid yn gofyn am gyngor y Gweithiwr Cymdeithasol sy'n Asesu ynghylch a fydd swm y budd-dal sy'n daladwy fel arfer yn cael ei ystyried fel incwm, fel rhan o'r drefn asesu.
- 4.5 Lle nodir hawl i fudd-dal plant a/neu gredyd treth plant a lle y gwneir cais amdani gan yr ymgeiswyr ond eu bod yn aros iddi gael ei dyfarnu, bydd yr incwm hwn yn cael ei gynnwys yn y lwfans ac yn cael ei adennill naill ai o'r dyfarniad ôl-ddyddiedig, neu drwy addasu'r lwfans.
- 4.6 Rhaid i warcheidwaid arbennig hysbysu'r Tîm Maethu pan fyddant yn cael y budd-dal a rhaid iddynt roi copi o'r datganiad dyfarnu. Bwriad hyn yw osgoi oedi diangen wrth wneud y taliadau cywir, a threfnu opsiynau ad-dalu os oes angen.

## 5. Defnyddio'r prawf modd

### Incwm

- 5.1 Mae cyfanswm incwm net wythnosol y gwarcheidwad/gwarcheidwaid arbennig (ar ôl didynnu treth, yswiriant gwladol a chyfraniadau pensiwn) yn cael ei gymryd i ystyriaeth. Bydd unrhyw ddiidyniadau a gymerir yn y man cychwyn ar gyfer eitemau megis tocyn tymor misol, lwfans teithio, benthyciadau, aelodaeth campfa ac ati yn cael eu hychwanegu yn ôl i gyfanswm yr incwm net.
- 5.2 Bydd angen cynnwys pob incwm arall o fath rheolaidd at ddiben y prawf modd, h.y. gan bobl nad ydynt yn ddibynyddion, eu plant eu hunain, perthnasau, gosodiadau eiddo a llety, incwm o gynilion a buddsoddiadau, pensiynau, gorchmynion llys, taliadau cynhaliaeth plant, yr holl incwm budd-daliadau gan gynnwys credydau treth gwaith a chredydau treth plant, pob taliad budd-dal plant.
- 5.3 Ymhellach, fel rhan o'r cais am lwfans Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig, mae angen datgelu unrhyw incwm arall nad yw wedi'i restru uchod. Gall y rhain gynnwys, ond nid ydynt yn gyfyngedig i, unrhyw daliadau a gafwyd mewn perthynas â Mabwysiadu, Gorchmynion Preswylfa, Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig presennol a Lwfans(au) Byw i'r Anabl. Nid yw incwm o daliadau o'r fath wedi'i gynnwys yn y prawf modd ond mae'n ofynnol iddynt wirio'r wybodaeth o fewn cyfriflenni banc.

- 5.4 Os yw'r person ifanc (sy'n destun y cais am Orchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig), neu berson ifanc arall yn yr aelwyd, yn cael y Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA) neu incwm sy'n gysylltiedig â chynlluniau hyfforddiant cyflogaeth y llywodraeth, ni fydd y rhain yn cael eu cynnwys yn asesiad incwm yr aelwyd.
- 5.5 Bydd y rheini sy'n cael Lwfans Ceisio Gwaith neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn destun asesiad ariannol llawn.
- 5.6 Nid yw unrhyw lwfansau maethu a ffioedd tâl maethu a geir gan y gwarcheidwaid arbennig ar gyfer unrhyw blentyn sy'n derbyn gofal ganddynt, nad ydynt yn destun y cais yn unig, yn cael eu hystyried fel incwm at ddibenion asesu.
- 5.7 Bydd incwm ymgeiswyr hunangyflogedig yn seiliedig ar eu codiadau. Bydd elw hefyd yn cael ei gynnwys fel incwm ac yn cael ei gyfartaleddu dros 52 wythnos (er mwyn pennu ffigur incwm wythnosol).
- 5.8 Cynhwysir incwm rhent yn llawn. Fodd bynnag, pan fo'r rhent yn cael ei drefnu drwy asiantaeth gosod eiddo, dim ond y ffigur incwm rhent terfynol sy'n cael ei gynnwys (ar ôl ystyried ffioedd rhentu).
- 5.9 Dim ond y llog o incwm a gynhyrchir o fuddsoddiadau cyfalaf ac arbedion sy'n cael ei ystyried yn yr asesiad ariannol.
- 5.10 Lle mae ymgeisydd wedi cyflwyno ffurflen dreth hunanasesu i CThEF o fewn y flwyddyn ddiwethaf, mae angen copi.

- 5.11 Ni ddylid cynnwys taliadau o Ddyfarniadau Digolledu am Anafiadau Troseddol yn yr asesiad ariannol, fodd bynnag, dylid rhoi copi o ddogfennau'r dyfarniad i'r Tîm Asesu Ariannol i wirio'r wybodaeth a roddwyd.
- 5.12 Mae llog ar gyfalaf sy'n perthyn i'r plentyn yn cael ei ddiystyru. Dim ond llog ar gyfalaf yr ymgeisydd a gymerir i ystyriaeth.
- 5.13 Bydd gwariant cyffredinol aelwydydd ar eitemau megis bwyd, cludiant, dillad, cyfleustodau (nwy, trydan a dŵr), hamdden ac ati yn cael ei gyfrifo gan ddefnyddio cyfraddau lwfans Cymhorthdal Incwm a'i gynyddu 25%.

## **Cyfrifiad**

- 5.14 Mae cyfradd uchaf y Lwfans Gwarcheidiaeth Arbennig yn cyfateb i gyfraddau lwfans maethu oni bai bod amgylchiadau eithriadol sy'n gofyn am lwfans atodol.
- 5.15 Bydd incwm gwario'r teulu yn cael ei gyfrifo drwy adio costau'r llety a'r ffigurau gwariant cyffredinol yr aelwyd/lwfans personol a gwrthbwysu hyn yn erbyn yr incwm y gellir ei asesu. Bydd hyn yn rhoi swm sy'n cyfateb i'r incwm gwario. Pennir canlyniad yr asesiad gan swm yr incwm gwario:
- Os mai 'dim' yw canlyniad yr asesiad ariannol, ni fydd dim taliad yn cael ei wneud i'r ymgeisydd/ymgeiswyr.
  - Os yw canlyniad yr asesiad ariannol (a) yn llai na'r gyfradd faethu berthnasol wedi tynnu budd-dal plant (b), yna telir y ffigur is (a).

- Os yw canlyniad yr asesiad ariannol (a) yn fwy na'r gyfradd faethu berthnasol wedi tynnu budd-dal plant (b), yna bydd yr uchafswm wythnosol yn daladwy (b).
- Os yw ymgeisydd yn cael Cymhorthdal Incwm neu Gredyd Pensiwn (Credyd Gwarant) nid oes angen prawf modd. Byddai'r person yn cael y gyfradd/lwfans maethu perthnasol wedi tynnu budd-dal plant wedi tynnu credyd treth plant (yn amodol ar brawf bod y budd-dal cymwys yn cael ei dalu a phrawf o gredyd treth plant).

5.16 Unwaith y bydd yr asesiad ariannol wedi ei awdurdodi, anfonir e-bost at y Tîm Maethu yn manylu ar ganlyniad yr asesiad ariannol. Amgaeir copi o'r asesiad ariannol hefyd ynghyd â chopi o ffurflen canlyniad asesiad y gellir ei hanfon ymlaen at yr ymgeiswyr.

5.17 Telir lwfans Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig bob pythefnos, un wythnos ymlaen llaw, un wythnos mewn ôl-daliadau, oni nodir yn wahanol yng nghytundeb y Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig.





## 6. Lwfans Atodol

- 6.1 Mae'n bosibl y bydd achosion eithriadol lle mae angen cymorth ariannol yn ychwanegol at gyfradd lwfans y Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig i gefnogi trefniant Gwarcheidiaeth Arbennig.
- 6.2 Gall awdurdodau lleol bennu amodau y maent yn eu hystyried yn briodol wrth roi cymorth ariannol. Gallai hyn gynnwys yr amserlen a'r diben y dylid defnyddio'r cymorth ariannol ar ei gyfer.
- 6.3 Nid yw'r lwfans atodol yn amodol ar y broses asesu ariannol ar gyfer lwfans y Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig na'r prawf modd fel y disgrifiwyd yn flaenorol, a bydd yn cael ei dalu yn ychwanegol at lwfans y Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig.
- 6.4 Gellid caniatáu lwfans atodol i dalu costau untro neu gostau rheolaidd yn ymwneud ag angen penodol a gall fod â chyfyngiad amser. Gellir ei ddyfarnu o dan yr amgylchiadau canlynol:

### Plentyn a Faethwyd yn Gynt gan Ymgeisydd

- 6.5 Os rhoddir Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig i ymgeisydd a fu'n rhoi gofal maeth yn flaenorol i'r plentyn y rhoddwyd y Gorchymyn ar ei gyfer, bydd y Gwarcheidwad Arbennig yn cael lwfans Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig sy'n hafal i lwfans maethu, wedi tynnu credyd treth plant a budd-dal plant am 2 flynedd waeth beth fo canlyniad asesiad y prawf modd.

- 6.6 Mae'r uchod yn berthnasol i ofalwyr maeth BCBC a gofalwyr Asiantaeth Maethu Annibynnol. Uchafswm y lwfans atodol a delir i gynorthwyo Gwarcheidwad Arbennig i bontio o fod yn ofalwr maeth i fod yn Warcheidwad Arbennig i blentyn, yw elfen y ffi sy'n berthnasol ar yr adeg y rhoddir y Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig, oni bai y gellir rhoi tystiolaeth, gyda thystiolaeth ysgrifenedig ategol y byddai hyn yn arwain at anfantais sylweddol. Ni fydd y cyfraddau hyn yn cynyddu yn unol â chwyddiant nac unrhyw newidiadau eraill, a byddant yn aros ar y lefel sylfaen honno am gyfnod y gorchymyn
- 6.7 Mewn amgylchiadau eithriadol gall yr awdurdod lleol gytuno i ymestyn cyfnod y lwfans atodol y tu hwnt i 2 flynedd.

### Amgylchiadau Eithriadol

- 6.8 Mewn amgylchiadau eithriadol, gellir caniatáu lwfans atodol at ddiben penodol. Gall y taliadau atodol hyn fod yn daliad untro neu'n daliadau rheolaidd o natur barhaus a rhaid eu cynnwys yn y cynllun cymorth. Mae'n rhaid bod angen asesedig a rhaid rhoi tystiolaeth briodol. Darperir y canlynol fel enghreifftiau o amgylchiadau o'r fath ond ni fwriedir iddynt fod yn rhestr gyflawn:
- Costau sefydlu – e.e. dodrefn neu offer ar gyfer unrhyw anghenion addysgol arbennig, newidiadau/addasiadau i'r cartref i gefnogi plentyn ag anabledd;
  - Rhoi'r plentyn mewn ysgol breswyl – e.e. lle yr aseswyd bod angen i ddiwallu anghenion addysgol arbennig y plentyn.
  - Ffioedd llys/cyfreithiol – e.e. lle mae tystiolaeth i gefnogi hyn, mae risg barhaus i sefydlogrwydd trefniant y Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig

- Hwyluso cyswllt – e.e. ffi canolfan gyswllt, costau teithio. Byddai'r costau cysylltiedig yn cael eu cyfrifo bob blwyddyn a'u cyfartaleddu i lwfans wythnosol.
- Cyfryngu – e.e. lle mae yna ddeinameg deuluol gymhleth a fydd yn cael effaith andwyol ar les y plentyn os na chaiff sylw.
- Gwasanaethau therapiwtig – e.e. i'r plentyn, Gwarcheidwad Arbennig neu'r ddau
- Caledi ariannol – e.e. pan fo Gwarcheidwad Arbennig wedi terfynu ei gyflogaeth er mwyn gofalu am y plentyn a bod anghenion y plentyn yn mynnu bod y gofalwr yn parhau i aros gartref i roi cymorth. Caiff yr awdurdod lleol gytuno i ymestyn cyfnod y lwfans atodol nes bod y plentyn yn cymryd rhan mewn addysg llawn amser.

6.9 Mae'n bosibl y bydd angen rhywfaint o ofal a chymorth ar blentyn sydd â salwch, anabledd, anawsterau emosiynol neu ymddygiadol, neu sy'n dioddef o ganlyniadau parhaus cam-drin neu esgeulustod yn y gorffennol, sy'n golygu bod angen gwariant ychwanegol. Yn yr achosion hyn, bydd gan weithwyr meddygol proffesiynol a gweithwyr proffesiynol eraill rôl i'w chwarae wrth werthuso effaith cyflwr y plentyn a rhoi cyngor i'r awdurdod lleol. Disgwylir i'r awdurdod lleol ofyn am gyngor meddygol arbenigol lle bo'n briodol ac ystyried y cyngor arbenigol hwn wrth ystyried yr angen i roi unrhyw daliad lwfans atodol uwchlaw cyfradd y lwfans sylfaenol i gefnogi'r gwarcheidwad arbennig. Bydd y taliad hwn yn cael ei adolygu'n rheolaidd a bydd cyfyngiad amser arno. O dan yr amgylchiadau hyn, bydd angen awdurdodiad gan Reolwr Corfforaethol am gyfnod penodol i gynorthwyo'r teulu ar gyfer y lwfans atodol.

6.10 Os bydd y cymorth ariannol atodol a nodir yn y cynllun cymorth (naill ai yn y lle cyntaf neu wedyn) yn fwy na £500 mewn unrhyw flwyddyn ariannol unigol yna bydd angen awdurdodiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol hefyd ar y cynllun cymorth cyn ei gyflwyno i'r llys neu ei roi.

- 6.11 Bydd yr angen am wariant ychwanegol parhaus yn cael ei ailasesu bob blwyddyn fel rhan o'r weithdrefn adolygu lwfansau Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig neu lle mae newid sylweddol mewn amgylchiadau. Byddai hyn yn cynnwys y Gwarcheidwad Arbennig yn rhoi gwybod os nad oes cyswllt wedi digwydd, lle telir lwfans atodol i hwyluso cyswllt.
- 6.12 Rhaid i unrhyw gytundebau ar gyfer talu lwfans atodol gael eu hamlinellu'n ysgrifenedig o fewn Cynllun Cymorth y Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig, i gynnwys manylion penodol ynghylch y swm y cytunwyd arno, i ba ddiben ac am ba hyd.
- 6.13 Bydd methiant ar ran y Gwarcheidwad Arbennig i gadw at drefniadau adolygiad ariannol yn golygu y bydd unrhyw lwfans atodol yn dod i ben. Bydd yr awdurdod lleol hefyd yn ceisio adennill unrhyw ordaliad o lwfans atodol, gan gynnwys pan fo Gwarcheidwad Arbennig wedi methu â hysbysu'r awdurdod lleol am newid mewn amgylchiadau.
- 6.14 Ni fydd taliad lwfans y Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig sy'n ymwneud â phlant neu'r lwfans atodol, os yw'n berthnasol, yn cynyddu yn ystod cyfnod y gorchymyn, oni bai bod y Gwarcheidwad/Gwarcheidwaid yn ofalwyr maeth yn flaenorol a bod ganddo/ganddynt hawl i lwfansau gwarchodedig o dan y polisi, neu yn dilyn adolygiad asesiad ariannol.

## 7. Cyfrifoldebau Gwarcheidwad/Gwarcheidwaid Arbennig

7.1 Os yw'r gwarcheidwad/gwarcheidwaid arbennig yn gymwys i gael cymorth ariannol yn dilyn y prawf modd, rhaid iddynt hysbysu'r Tîm Maethu o'r canlynol o fewn 14 diwrnod:

- Unrhyw newid cyfeiriad/rhif ffôn neu fanylion cyswllt ychwanegol megis cyfeiriad e-bost
- Os oes newid sylweddol yn eu hamgylchiadau ariannol hwy a/neu amgylchiadau ariannol y plentyn
- Os oes newid mewn perthnasoedd teuluol (fel partner newydd neu wahanu'r gwarcheidwaid arbennig), sy'n effeithio ar incwm/gwariant yr aelwyd
- Mae'r plentyn yn rhoi'r gorau i addysg llawn amser h.y. rhwng 16 a 18 oed ac yn dechrau cyflogaeth
- Mae'r person ifanc yn gymwys i gael Cymhorthdal Incwm neu lwfans ceisio gwaith yn ei rinwedd ei hun

7.2 Rhaid hysbysu'r Tîm Maethu ar unwaith:

- Os nad yw'r plentyn bellach yn byw gyda nhw'n barhaol
- Os bydd y plentyn yn marw
- Os yw'r Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig wedi dod i ben (mae'r plentyn wedi troi'n 18 oed neu mae'r Gorchymyn wedi'i ddirymu gan y Llys)

7.3 Mae'n ofynnol i warcheidwaid arbennig hysbysu'r awdurdod lleol o hynt eu ceisiadau am Fudd-dal Plant a Chredyd Treth Plant o fewn 4 wythnos i roi'r

Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig. Bydd methu â gwneud hynny yn arwain at atal taliadau hyd nes ceir y wybodaeth ofynnol.

## 8. Adolygu

- 8.1 Bydd ailasesiad blynyddol o bob achos yn digwydd ar ben-blwydd y dyddiad y rhoddir y Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig, fodd bynnag, byddai newid yn amgylchiadau ariannol yr ymgeisydd yn ysgogi asesiad ariannol pellach o fewn cyfnod o 12 mis. Er mwyn sicrhau hyn, anfonir y dogfennau adolygu at y Gwarcheidwad/Gwarcheidwaid Arbennig 2 fis cyn y dyddiad dyledus.
- 8.2 Bydd y Tîm Maethu yn gyfrifol am drefnu adolygiadau ar y cyd â chyllid. Fodd bynnag, dylid anfon unrhyw newidiadau y gellir eu nodi yn y pecyn cymorth cyfan cyn dyddiad yr adolygiad ariannol blynyddol, a fyddai'n effeithio ar unrhyw gymorth ariannol a gynigir, ymlaen at y Tîm Maethu er mwyn cynnal adolygiad os oes angen cyn dyddiad y pen-blwydd blynyddol.
- 8.3 Gall methu â chyflwyno asesiad neu adolygiad wedi'i gwblhau arwain at atal lwfansau. Bydd gwarcheidwaid arbennig yn cael gwybod am hyn yn ysgrifenedig. Ni fydd taliadau'n cael eu hadfer hyd nes y bydd y Tîm Maethu wedi cael y dogfennau gofynnol, hyd nes y bydd yr asesiad ariannol wedi'i gwblhau ar y cyd â'r Tîm Cyllid a hyd nes y penderfynir ar ganlyniad cadarnhaol. Gwneir nifer rhesymol o ymdrechion i gysylltu â'r gofalwr i drefnu i'r asesiad/tystiolaeth ariannol gael ei roi/rhoi gan y gofalwr yn bersonol neu drwy e-bost/post cyn i'r taliad ddod i ben. RHAID i BOB ymgais o ohebiaeth gael ei chofnodi'n glir ar y system rheoli data gyda'r dyddiad ymateb gofynnol a ddisgwylir gan y gofalwr.
- 8.4 Mae'n bosibl y gall lwfans y Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig sy'n ymwneud â phlant leihau neu ddod i ben yn dilyn adolygiad neu ailasesiad.

- 8.5 Gellir cynnal adolygiad o'r lwfans hefyd ar unrhyw adeg pan fydd y gwarcheidwaid arbennig yn hysbysu'r awdurdod o unrhyw newid sylweddol yn eu hamgylchiadau ariannol eu hunain neu amgylchiadau ariannol y plentyn.
- 8.6 Pan fydd llywodraeth ganolog yn gwneud newidiadau i fudd-daliadau, efallai y bydd angen adolygu'r polisi a'r weithdrefn hon. Ni wneir dim newidiadau i daliadau unigol oni bai eu bod yn unol â pholisi a gweithdrefn wedi'u diweddarau ac yn dilyn adolygiad asesiad ariannol.



## 9. Terfynu taliadau

9.1 Mae talu'r holl lwfansau yn dod i ben pan fydd y cynharaf o'r digwyddiadau canlynol yn digwydd:

- Mae'r Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig wedi dod i ben (e.e. oherwydd bod y plentyn wedi cyrraedd 18 oed) neu wedi'i ryddhau neu ei amrywio gan y llys.
- Mae'r plentyn yn peidio â phreswyllo'n barhaol gyda'r Gwarcheidwad/Gwarcheidwaid Arbennig (neu, mewn achos lle mae dau neu ragor o Warcheidwaid Arbennig, mae'r plentyn yn peidio â byw gydag unrhyw un ohonynt).
- Marwolaeth y plentyn y mae'r Gorchymyn yn ymwneud ag ef.
- Mae'r plentyn yn rhoi'r gorau i addysg llawn amser h.y. rhwng 16 a 18 oed ac yn dechrau cyflogaeth. Ni fydd y lwfans cynhaliaeth addysg a chynlluniau hyfforddiant y llywodraeth ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 a 18 oed yn cael eu cynnwys fel incwm ar gyfer lwfans y Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig. Bydd y Tîm Maethu yn cysylltu â'r ymgeisydd/ymgeiswyr yn ystod mis Awst bob blwyddyn yn dilyn pen-blwydd y plentyn yn 16 oed i gael cadarnhad o statws addysgol y plentyn, bydd angen rhoi'r dystiolaeth o fewn nifer penodol o wythnosau ar ôl i'r person ifanc ddechrau ei addysg/lleoliad yn nhymor mis Medi (gellir e-bostio/ postio/ dangos copiâu o'u ID coleg ac ati neu lythyr ysgrifenedig i'r gweithiwr penodedig).
- Mae'r person ifanc yn gymwys i gael Cymhorthdal Incwm neu lwfans ceisio gwaith yn ei rinwedd ei hun
- Yr ymgeisydd/ymgeiswyr yn gwrthod cyflwyno'r wybodaeth sydd ei hangen er mwyn cynnal ailasesiad ariannol.

9.2 Wrth i un asesiad ariannol gael ei gynnal, gan gynnwys yr holl blant a leolir gyda'r ymgeisydd/ymgeiswyr o dan unrhyw Orchymyn Llys, bydd terfynu

unrhyw Orchymyn unigol yn terfynu taliad yr holl lwfansau a bydd angen ailasesiad mewn perthynas â'r plant sy'n weddill a leolir gyda'r ymgeisydd/ymgeiswyr. Bydd yr ailasesiad hwn i ddechrau yn seiliedig ar wybodaeth a roddwyd yn ystod yr ailasesiad diweddaraf hyd nes y gellir cynnal ailasesiad llawn ar gyfer gweddill y plant.

- 9.3 Lle mae lwfans atodol wedi'i roi i gynorthwyo'r pontio o ofalwr maeth i Warcheidwad Arbennig, bydd unrhyw daliad o'r fath yn dod i ben ar ôl dwy flynedd, oni bai bod y Swyddog Arweiniol Corfforaethol wedi cytuno ar amgylchiadau eithriadol. Yn yr achosion hyn, bydd y taliad yn dod i ben ar y dyddiad a bennwyd ymlaen llaw a amlinellir yng Nghynllun Cymorth y Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig. Oni bai bod unrhyw un o'r uchod yn berthnasol (9.1).

## 10. Atodiadau

Cyfeirnod:

Enw'r Ymgeisydd 1<sup>af</sup>: \_\_\_\_\_ (Mr/Mrs/Miss/Arall)

Dyddiad Geni: \_\_\_\_\_

Enw'r 2<sup>il</sup> Ymgeisydd: \_\_\_\_\_ (Mr/Mrs/Miss/Arall)

Dyddiad Geni: \_\_\_\_\_

Cyfeiriad cartref:

\_\_\_\_\_

Rhif Ffôn Cartref: \_\_\_\_\_

Rhif ffôn yn ystod y dydd:

\_\_\_\_\_

### 1. Meddianwyr Eraill yn yr Aelwyd

Enw	Dyddiad Geni	Perthynas â'r Ymgeisydd/Ymgeiswyr (Plentyn geni, plentyn maeth, plentyn mabwysiedig, ac ati)	Addysg Llawn Amser le / Na



## 2a. Manylion Enillion (Cyflogaeth)

### Ymgeisydd Cyntaf

<b>Enw:</b>	
<b>Natur Cyflogaeth:</b>	
<b>Enw'r Cyflogwr:</b>	
<b>Cyfeiriad y Cyflogwr:</b>	
<b>Enillion Gros Cyfartalog:</b>	
<b>Enillion Net Cyfartalog:</b> (ar ôl didyniadau)	

### Ail Ymgeisydd

<b>Enw:</b>	
<b>Natur Cyflogaeth:</b>	
<b>Enw'r Cyflogwr:</b>	
<b>Cyfeiriad y Cyflogwr:</b>	
<b>Enillion Gros Cyfartalog:</b>	
<b>Enillion Net Cyfartalog:</b> (ar ôl didyniadau)	

**Bydd angen i chi roi copïau o slipliau cyflog am 3 mis  
(neu 12 wythnos os cewch eich talu bob wythnos)**

**2b. Manylion Enillion (Hunan Gyflogedig)**

<b>Enw'r Ymgeisydd:</b>	
<b>Natur y Busnes:</b>	
<b>Cyfeiriad y Busnes:</b>	
<b>Côd post:</b>	

**Bydd angen i chi ddarparu copi o'r ffigurau a gyflwynwyd i'r Swyddfa Dreth ar gyfer Aseiad Treth ynghyd ag unrhyw gadarnhad bod y rhain wedi'u derbyn**

## 2. Lwfansau, Pensiynau a Budd-daliadau

### Ymgeisydd Cyntaf

	<b>Swm £</b>	<b>* Dileer fel y bo'n briodol</b>
<b>Cymhorthdal Incwm</b>		Bob wythnos /pythefnos/4 wythnos
<b>Credydau Cynhwysol</b>		Bob wythnos /pythefnos/4 wythnos
<b>Credyd Treth Gwaith</b>		Bob wythnos /pythefnos/4 wythnos
<b>Credyd Treth Plant</b>		Bob wythnos /pythefnos/4 wythnos
<b>Credyd Pensiwn:</b> - Credyd Gwarant  - Credyd Cynilion		Bob wythnos /pythefnos/4 wythnos  Bob wythnos /pythefnos/4 wythnos
<b>Pensiwn Ymddeol</b>		Bob wythnos /pythefnos/4 wythnos
<b>Pensiwn Galwedigaethol (cyflogaeth flaenorol)</b>		Bob wythnos /pythefnos/4 wythnos
<b>PIP/Lwfans Byw i'r Anabl</b>		Bob wythnos /pythefnos/4 wythnos
<b>PIP/Lwfans Byw i'r Anabl – Symudedd</b>		Bob wythnos /pythefnos/4 wythnos
<b>Lwfans Gweini</b>		Bob wythnos /pythefnos/4 wythnos
<b>Budd-dal Analluogrwydd</b>		Bob wythnos /pythefnos/4 wythnos
<b>Anafiadau Diwydiannol</b>		Bob wythnos /pythefnos/4 wythnos

	<b>Swm £</b>	<b>* Dileer fel y bo'n briodol</b>
<b>Budd-dal Plant</b> (plant ei hun)		Bob wythnos /pythefnos/4 wythnos
<b>Taliadau Cynhaliaeth Plant a Gafwyd</b>		Bob wythnos /pythefnos/4 wythnos
<b>Arall (nodwch)</b> _____ _____ _____		Bob wythnos /pythefnos/4 wythnos

### Ail Ymgeisydd

	<b>Swm £</b>	<b>* Dileer fel y bo'n briodol</b>
<b>Cymhorthdal Incwm</b>		Bob wythnos /pythefnos/4 wythnos
<b>Lwfans Ceisio Gwaith</b>		Bob wythnos /pythefnos/4 wythnos
<b>Credyd Treth Gwaith</b>		Bob wythnos /pythefnos/4 wythnos
<b>Credyd Treth Plant</b>		Bob wythnos /pythefnos/4 wythnos
<b>Credyd Pensiwn:</b> - Credyd Gwarant  - Credyd Cynilion		Bob wythnos /pythefnos/4 wythnos  Bob wythnos /pythefnos/4 wythnos
<b>Pensiwn Ymddeol</b>		Bob wythnos /pythefnos/4 wythnos
<b>Pensiwn Galwedigaethol</b> (cyflogaeth flaenorol)		Bob wythnos /pythefnos/4 wythnos
<b>Lwfans Byw i'r Anabl – Gofal</b>		Bob wythnos /pythefnos/4 wythnos



	<b>Swm £</b>	<b>* Dileer fel y bo'n briodol</b>
<b>Lwfans Byw i'r Anabl – Symudedd</b>		Bob wythnos /pythefnos/4 wythnos
<b>Lwfans Gweini</b>		Bob wythnos /pythefnos/4 wythnos
<b>Budd-dal Analluogrwydd</b>		Bob wythnos /pythefnos/4 wythnos
<b>Anafiadau Diwydiannol</b>		Bob wythnos /pythefnos/4 wythnos
<b>Budd-dal Plant (plant ei hun)</b>		Bob wythnos /pythefnos/4 wythnos
<b>Taliadau Cynhaliath Plant a Gafwyd</b>		Bob wythnos /pythefnos/4 wythnos
<b><u>Arall (nodwch)</u></b> _____ _____ _____		Bob wythnos /pythefnos/4 wythnos

#### 4a. Llog/Incwm o gynilion a buddsoddiadau

<b>Math o Incwm a Gafwyd</b>	<b>Swm £</b>	<b>Amllder</b>

**Darparwch gopïau o gyfriflenni banc am y 3 mis diwethaf  
ar gyfer pob cyfrif**

#### 4b. Unrhyw incwm arall (diystyrir lwfansau maethu)

<b>Math o Incwm a Gafwyd</b>	<b>Swm £</b>	<b>Amllder</b>

Math o Incwm a Gafwyd	Swm £	Amllder

5. Unrhyw incwm arall a gafwyd gan feddianwyr yn eich cartref (e.e. plant, perthnasau eraill, lletywyr, plant a leolwyd gan asiantaethau eraill ar gyfer maethu neu fabwysiadu)?

Enw	Dyddiad Geni	Perthynas â'r Ymgeisydd	Swm £	Amllder

6. Incwm eich plentyn\* (gall hyn fod yn blant eich hun neu blant mabwysiedig)

	Enw'r Plentyn	Enw'r Plentyn	Enw'r Plentyn	Enw'r Plentyn
	Swm £	Swm £	Swm £	Swm £
<b>Budd-dal Plant</b>				
<b>PIP/Lwfans Byw i'r Anabl – Gofal</b>				
<b>PIP/Lwfans Byw i'r Anabl – Symudedd</b>				
<b>Arall (nodwch)</b>				

## 7. Treuliau ac Alldaliadau

	Amllder	Swm £
<b>Morgais yn Daladwy</b>		
<b>Gwaddol Morgeisi</b>		
<b>Rhent</b> (wedi tynnu unrhyw Fudd-dal Tai a gafwyd)		
<b>Treth y Cyngor</b> (wedi tynnu unrhyw Fudd-dal Treth y Cyngor a gafwyd)		

## 8a. Alldaliadau Eraill

	Manylion	Swm Wythnosol £
<b>Taliadau cynhaliaeth / Gorchmynion Llys</b>		
<b>Cyfraniadau pensiwn preifat</b>		
<b>Yswiriant Gwladol</b> (os yn hunangyflogedig)		
<b>Costau gofal plant rhesymol</b> (heb eu cynnwys yn elfen gofal plant y Credyd Treth Gwaith)		

## 8b. Ad-daliadau Benthyciad

Benthyciwr (Banc, Cymdeithas Adeiladu, ac ati)	Pwrpas y Benthyciad	Dyddiad cychwyn	Hyd y Benthyciad	Swm £

Benthyciwr (Banc, Cymdeithas Adeiladu, ac ati)	Pwrpas y Benthyciad	Dyddiad cychwyn	Hyd y Benthyciad	Swm £

**Bydd angen i chi ddarparu prawf o unrhyw gostau a restrir yn adrannau  
7 ac 8**

**9. Gwybodaeth Ychwanegol**

**10. Darllenwch y datganiad hwn yn ofalus cyn i chi ei lofnodi a'i  
ddyddio.**

- Rwy'n datgan bod y wybodaeth a roddwyd gennyf ar y ffurflen hon yn gywir ac yn gyflawn.
- Rwy'n deall y byddwch yn defnyddio'r wybodaeth rwyf wedi'i rhoi i benderfynu a oes gennyf hawl i gymorth ariannol. Gallwch wirio peth o'r wybodaeth gydag adrannau eraill y cyngor o fewn Cyngor Sir Ceredigion a chynghorau eraill. Cewch roi rhywfaint o wybodaeth i adrannau eraill y cyngor a sefydliadau'r llywodraeth fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith.
- Gwn fod yn rhaid i mi hysbysu Tîm Maethu'r cyngor yn ysgrifenedig ar unwaith o unrhyw newidiadau yn fy amgylchiadau a allai effeithio ar faint o gymorth a gaf.
- Rwy'n deall, os byddaf yn rhoi gwybodaeth ffug yn fwriadol, y gellir cymryd camau yn fy erbyn i adennill y cyfan o'r cymorth ariannol a dalwyd i mi.

**Llofnod yr Ymgeisydd 1<sup>af</sup>:** \_\_\_\_\_ **Dyddiad:**  
\_\_\_\_\_

**Llofnod yr 2<sup>il</sup> Ymgeisydd:** \_\_\_\_\_ **Dyddiad:**  
\_\_\_\_\_

## **Sut rydym yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth**

- Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a gasglwn, ar y ffurflen hon ac o'r dystiolaeth ategol a roddwch i ni, i brosesu eich cais am lwfans cymorth. Unwaith y byddwn yn casglu eich gwybodaeth efallai y byddwn yn ei rhannu ag adrannau eraill y cyngor i helpu i roi gwasanaeth cyflawn i chi.
- Mae'n bosibl y byddwn yn gwirio'r wybodaeth rydych chi (neu unrhyw un arall) wedi'i rhoi gyda gwybodaeth arall sydd gennym. Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn cael gwybodaeth gan gyrff a sefydliadau eraill, neu'n rhoi gwybodaeth iddynt i wirio cywirdeb eich gwybodaeth, i atal neu ganfod trosedd, i ddiogelu arian cyhoeddus mewn ffyrdd eraill neu am resymau a ganiateir gan y gyfraith.
- Byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth yn unol â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol 2016 a Deddf Diogelu Data 2018. Ni (Cyngor Sir Ceredigion) yw rheolydd y data at ddibenion Deddf Diogelu Data 2018.
- Os hoffech wybod mwy am yr hyn sy'n digwydd i'r wybodaeth sydd gennym amdanoch a'ch hawliau a'n rhwymedigaethau i chi, mae datganiad Prosesu Teg y cyngor ar gael ar dudalennau diogelu data ein gwefan.